

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn cefnogi elusennau gwirfoddolwyr a chtmunedau

Cyfes o Bolisiau Enghreifftiol



4 Ad-dalu Treuliau

Ni fydd gwirfoddolwyr sy'n gweithio i [sefydliad] ar eu colled o ganlyniad i'w gwaith. Bydd treuliau parod a gymeradwyir yn cael eu talu ac ni ddylent effeithio ar geisiadau am fudd-daliadau na chyflwyno unrhyw oblygiadau cyfreithiol neu dreth eraill.

Gall gwirfoddolwyr hawlio treuliau parod pan fyddant yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â'u gwaith gyda CGGC. Bydd y treuliau sy'n cael eu talu yn gostau gwirioneddol a gafwyd. Dylid cefnogi pob cais am dreuliau gyda derbynebaw dilys fel tystiolaeth o wariant.

Dyma'r treuliau y mae hawl gan gwirfoddolwyr eu hawlio wrth weithio yn [enw'r sefydliad]:

- costau teithio i'r lle y mae'r gwaith gwirfoddol yn digwydd ac oddi yno
- costau teithio yn ystod y gwirfoddoli
- gellir talu am brydau bwyd a geir yn ystod gwirfoddoli lle mae gwirfoddolwr yn gweithio mwy na 4 awr yn barhaus (mae hyd at £5 yn cael ei gydnabod yn rhesymol)
- costau postio, deunydd ysgrifennu a ffôn
- gofal plant a dibynyddion eraill yn ystod y cyfnod o waith gwirfoddol (gweler drosodd)
- cost dillad amddiffynnol neu arbennig
- treuliau cymeradwy eraill

Os nad ydych yn siwr a yw gwariant yn ddilys, gofynnwch i'r rheolwr gwirfoddolwyr, neu eich person cyswllt ar y staff neu'r rheolwr Adnoddau Dynol.

Mae'r treuliau hyn yn unol â chanllawiau Cyllid y Wlad a'r Adran Gwaith a Phensiynau

Cyfraddau ar gyfer hawlio Treuliau

Teithio:

Caiff treuliau eu had-dalu am unrhyw deithio i'r lle y mae'r gwaith gwirfoddol yn digwydd ac oddi yno ac unrhyw deithio yn ystod y gwirfoddoli.

Caiff costau teithio eu had-dalu ar y cyfraddau canlynol:

- Prisiau cludiant cyhoeddus -

Caiff prisiau ail ddosbarth eu had-dalu os cyflwynir derbynebaw/tocynnau.

- Lwfans Milltired –

Lwfans Milltired	Ceir	Beiciau modur	Beiciau
Am y 10,000 milltir gyntaf yn y flwyddyn ariannol	45c y filltir	24c y filltir	20c y filltir
Am bob milltir ychwanegol dros 10,000 milltir	25c y filltir	15c y filltir	-
Ar gyfer pob teithiwr a gludir, swm ychwanegol o	2c y filltir	-	-
Trothwy milltired dyddiol			
	100 milltir		
Ar bob milltir uwchlaw 100 milltir y diwrnod	25c y filltir	15c y filltir	-

Byddai [*Sefydliad*] yn annog defnyddio cludiant cyhoeddus lle bo hynny'n bosibl.

Gofal plant yn ystod y cyfnod o waith gwirfoddol

Os defnyddiwch ofal plant wrth wneud gweithgareddau i CGGC, efallai y gallwch hawlio'r gost, gofynnwch i'ch aelod staff cyswllt neu'r rheolwr Adnoddau Dynol. Os caiff ei gymeradwyo, rhaid i chi ddefnyddio darparwr gofal plant cofrestredig, er mwyn i chi hawlio'r gost hon yn ôl. Ad-delir costau gofal plant hyd at £5 yr awr y plentyn. Rhaid i chi gefnogi'r cais gyda dogfennau dilys (derbynebaw, anfonebau neu daflenni amser) gan roi manylion dyddiad a hyd y ddarpariaeth gofal plant.

Talu treuliau

I hawlio treuliau, dylech lenwi'r ffurflen hawlio treuliau atodedig. Cofiwch ofyn os oes angen unrhyw gymorth arnoch i lenwi'r ffurflenni.

Ar ôl eu llenwi, caiff treuliau eu prosesu cyn gynted â phosibl. Caiff ceisiadau dan £25.00 eu talu mewn arian parod, fel arall gyda siec.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl hawlio treuliau ymlaen llaw. Gofynnwch i'r rheolwr gwirfoddolwyr am fwy o fanylion.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart,
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH

Elusen Gofrestredig: 218093

Ffôn: 0300 111 0124 help@wcva.org.uk

Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Diweddarwyd: Mehefin 2014



FFURFLEN HAWLIO TREULIAU

Enw _____

<i>Dyddiad</i>	<i>Gweithgaredd-au</i>	<i>Teithio</i>				<i>Prydau Bwyd</i>	Gofal Dibynyddio n	Ffôn/ Post	<i>Arall</i>	<i>Cyfanswm</i>
		<i>Taith o</i>	<i>Taith i</i>	<i>Miltiredd</i>	<i>Cludiant Cyhoeddus / Parcio</i>					

Cyfanswm y cais £ _____

Llofnod y person a enwir uchod _____ Awdurdodwyd gan _____ Dyddiad _____

Atodwch pob tocyn bws/trên ac unrhyw dderbynebau

At ddefnydd swyddfa yn unig

Enw'r prosiect _____ Sefydliad _____